| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **Dyddiad :** | **18 Ebrill 2016** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Er gwybodaeth** |

## 1. Cefndir

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau. Seilir yr adroddiad ar y wybodaeth a dderbyniwyd wrth yr Ombwdsmon a defnyddir ei gyfeirnodau.

## 2. Cwynion

### 2.1 Achos 7294/201505281

Dyddiad derbyn: 07/01/16

**Cwyn**
Bod cynghorydd wedi cyhuddo'r achwynydd (cyd-gynghorydd tref) ar gam o wneud sylwadau difrïol, gwahaniaethol a rhagfarnllyd ar sail oed amdani mewn cyfarfod o'r cyngor, ac a gyhoeddwyd wedi hynny mewn papur newydd lleol.

**Penderfyniad**

Dim ymchwiliad.

Dylai aelodau etholedig fod yn barchus o'u gwrthwynebwyr a dylid cyfyngu unrhyw sylwadau neu ddadl i faterion perthnasol ac osgoi ymosodiadau personol ac ymddygiad ymosodol. Fodd bynnag, mae angen cydbwyso hyn yn erbyn hawl yr unigolyn i ryddid mynegiant barn.

Yn yr achos hwn mae'n ymddangos bod cysylltiad rhwng y sylwadau â'r daflen / gwybodaeth a gyhoeddwyd yn wreiddiol gan yr achwynydd, a gallai'r y datganiadau gall fod yn haeddu lefel uwch o warchodaeth a roddir gan Erthygl 10 o'r Ddeddf Hawliau Dynol.

Nid oedd yr Ombwdsmon wedi'i argyhoeddi y byddai cynnal ymchwiliad er budd y cyhoedd, er ei fod yn benderfyniad agos iawn. Ysgrifennodd yr Ombwdsmon at y cynghorydd i'w hatgoffa i ystyried ei rhwymedigaethau o dan y Cod Ymddygiad.

**2.2 Achos 9945/201505396**

Dyddiad derbyn: 12/01/16

**Cwyn**

Bod y cynghorydd wedi dosbarthu gwybodaeth gamarweiniol am yr achwynydd (cyd- gynghorydd tref) yn datgan ei bod wedi pleidleisio mewn cyfarfod o'r pwyllgor cynllunio. Nid oedd yn aelod o'r pwyllgor ond bresennol fel sylwedydd yn unig.

**Penderfyniad**

Dim ymchwiliad.

Nid oedd y cynghorydd a gyhuddwyd yn bresennol yn y cyfarfod, ond ar sail y dystiolaeth oedd ar gael nid oedd yn afresymol i unigolyn i gymryd yn ganiataol bod yr achwynydd wedi bod yn rhan o'r pwyllgor cynllunio mewn perthynas â'r eitem dan sylw. Roedd hi hefyd wedi manteisio ar y cyfle i egluro ei sefyllfa mewn erthygl papur newydd. Nid oedd er budd y cyhoedd i ymchwilio i'r gŵyn. Roedd y wybodaeth a dosbarthwyd yn fras o natur wleidyddol ac nid oedd yn amharchus neu sarhaus mewn tôn.

**2.3 Achos 10076/201505713/14**

Dyddiad derbyn: 25/01/16

**Cwyn**

Roedd y cynghorydd wedi aflonyddu ar yr achwynydd (cyd-gynghorydd tref) drwy wneud cwyn di-sail i'r Ombwdsmon yn ei erbyn ei fod ef wedi aflonyddu arno. Roedd hefyd wedi defnyddio deunydd ysgrifennu'r cyngor wrth wneud hynny. Roedd hefyd yn honni bod y cynghorydd wedi methu â datgan buddiant mewn cyfarfod.

**Penderfyniad**

Dim ymchwiliad.

Roedd yr Ombwdsmon eisoes wedi penderfynu peidio ymchwilio i'r gŵyn aflonyddu a fyddai dim yn cael ei ennill wrth ail-agor y mater. Roedd y cynghorydd yn ymgymryd â busnes y cyngor pan ddaeth ei bryderon ynghylch aflonyddwch i'r amlwg. Er bod y cynghorydd wedi gadael y cyfarfod dan sylw nid oedd wedi hysbysu'r cyngor yn agored o'r rheswm dros wneud hynny, sy'n ofynnol o dan y cod. Ni fyddai ymchwiliad fod er budd y cyhoedd ond byddai'r Ombwdsmon yn atgoffa'r cynghorydd ei ddyletswyddau o dan y cod.

**3. Argymhelliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth.